

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

135 - Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Mehefin 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	2 Gorffennaf 2019
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	2 Gorffennaf 2019
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	8 Gorffennaf 2019
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 10
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Ddim yn hysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (yr "OS REACH") Mae'n mewnosod darpariaeth drosiannol newydd sy'n ymwneud â cheisiadau am awdurdodiadau i ddefnyddio sylweddau cemegol sy'n peri pryder mawr - sy'n rhoi i gwmnïau'r DU gyfle i wneud cais am awdurdodiadau ar ôl y diwrnod ymadael er mwyn sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y diwydiant cemegion na'r gadwyn cyflenwi.

Mae'r OS REACH yn cymhwyso rhai darpariaethau drwy ddyddiadau penodol neu mewn achosion eraill drwy ddyddiadau "symudol" sydd

ynghlwm wrth y diwrnod ymadael. Mae goblygiadau gan yr estyniadau i Erthygl 50 ar gyfer y dyddiadau hyn hefyd, a fydd yn effeithio mewn rhai achosion ar ddyletswyddau'r rheoleiddiwr neu'n atal rhai busnesau rhag elwa ar ddarpariaeth. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud rhai mân ddiwygiadau sy'n ymwneud â dyddiadau, croesgyfeiriadau a diwygiadau diweddar i reoliad REACH yr UE.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 24 Mehefin 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.